Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Uned Arbenigol ar Dystiolaeth Adolygu
SURE
Specialist Unit for Review Evidence

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Adolygiad cyflym o'r ffactorau lefel sefydliadol sy'n cefnogi neu'n atal datblygu a lledaenu arloesiadau ym maes gofal cymdeithasol plant

Mala Mann, Kate Lifford, Susan O'Connell, Alison Weightmann, Lydia Searchfield, Elizabeth Doe, Alison Cooper, Ruth Lewis, Adrian Edwards

## Cefndir

- Mae darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gymhleth ac yn amlochrog, ac mae angen cydweithio gofalus rhwng ystod o sefydliadau.
- Gall y cydweithrediadau hyn effeithio ar benderfyniadau ynghylch sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu.
- Roedd yr adolygiad cyflym hwn, a gynhaliwyd er budd Gofal Cymdeithasol Cymru, yn rhoi mewnwelediad i sut y gellir mabwysiadu newidiadau arloesol ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol.



**Nod** Nodi ffactorau **(rhwystrau a galluogwyr)** sy'n effeithio ar weithredu a graddoli datblygiadau arloesol mewn sefydliadau gofal cymdeithasol plant.

### Beth mae 'arloesi' yn ei olygu?

Yn yr astudiaeth hon, diffinnir arloesedd fel '**gweithredu syniad, arfer neu ddyfais newydd o fewn sefydliad neu system.' Mae 'arloesi' yn aml yn cynnwys newid proses**, lle gall y canlyniadau fod yn ansicr neu hyd yn oed yn aflonyddgar.

## Canfyddiadau Allweddol a Goblygiadau Polisi

Mae'r adolygiad cyflym hwn yn tynnu sylw at gymhlethdod y modelau gofal cymdeithasol ac yn cynnig rhywfaint o awgrymiadau clir ar gyfer polisi ac ymarfer.

**Beth sy'n cefnogi arloesedd?**

- cymorth a chefnogaeth uwch reolwyr
- cyllid tymor byr a thymor hirach
- cyfathrebu rhyngddisgyblaethol a gweithio ar y cyd
- perthnasoedd proffesiynol a gofal proffesiynol-maethu/gofalwyr eraill da gyda chefnogaeth a pharch at y naill a'r llall
- horddiant a chymorth penodol i staff proffesiynol
- systemau data cydnaws i gefnogi cydweithio/cydweithredu.

**Beth sy'n rhwystro arloesedd?**

- tymor byr neu ddiffyg cyllid
- ffactorau sefydliadol (megis newidiadau strwythurol a blaenoriaeth) a allai rwystro gweithredun

## Crynodeb o'r Sail Dystiolaeth

Nodwyd 10 astudiaeth ar draws 13 o gyhoeddiadau
Nodwyd **5 o ddatblygiadau arloesol pellach a weithredwyd yng Nghymru**: **2** gwerthusiadau lleol anffurfiol; **3** heb eu gwerthuso'n lleol

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at 17 Tachwedd 2022
Mae hyder yn y dystiolaeth yn ansicr. Nid oedd y rhan fwyaf o astudiaethau'n defnyddio dulliau ffurfiol

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:
https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/adolygiad-cyflym-or-ffactorau-lefel-sefydliadol-syn-cefnogi-neun-atal-maint-lledaeniad-datblygiadau